# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD MERCHER, 21 CHWEFROR 2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau

trwyddedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd (a darpar gyflogwr) yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir troseddau yr ymgeisydd. Amlygodd bod y troseddau yn rhai hanesyddol a bod yr ymgeisydd yn derbyn ei fod wedi gwneud camgymeriadau yn y gorffennol ond bellach yn canolbwyntio ar fagu a chefnogi ei deulu. Er bod ganddo swydd lawn amser, nodwyd bod angen swydd hyblyg arno i dreulio amser a chefnogi ei fab oedd yn mynychu sesiynau hyfforddi peldroed ym Manceinion.

Mewn ymateb i gwestiwn a fyddai'r cyflogwr yn fodlon cyflogi person gyda throseddau yn ymwneud ag anonestrwydd, amlygodd y byddai yn barod i roi cyfle iddo.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ieuenctid Bangor (Mawrth1995) am ladrad ac ymosodiad cyffredin. O ganlyniad cafodd orchymyn gwasanaeth cymunedol. Derbyniodd gollfarn gan Lys Ieuenctid Bangor (Chwefror 1996) am ymosodiad cyffredin ac affräe. O ganlyniad cafodd orchymyn gwasanaeth cymunedol, gorchymyn i dalu iawndal o £50.00 a chostau o £150.00. Derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor (Medi 1999) am fod yn feddw ac yn afreolus. Cafodd ddirwy o £35.00 a gorchymyn i dalu costau o £65.00. Derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Conwy (Mai 2008) am ddefnyddio geiriau sarhaus ac ymddygiad bygythiol gyda bwriad i achosi ofn neu gymell trais, ac ymosodiad cyffredin. Ar gyfer y troseddau hyn, cafodd orchymyn cymunedol, cyrffew 3 mis a gorchymyn i dalu costau o £60.00.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded.

Amlygwyd bod paragraff 4.5 o Bolisi'r Cyngor yn nodi bod Gorchymyn Deddf

Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu i’r Is-bwyllgor ystyried yr holl gollfarnau a gofnodwyd boed y rheiny wedi darfod o dan Ddeddf 1974 ai peidio.

Ystyriwyd paragraff 6.5 lle nodi’r bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd un gollfarn o natur dreisgar yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Ymhellach ystyriwyd paragraff 6.6 lle nodi’r bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fwy nag un gollfarn o natur dreisgar yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf.

Ystyriwyd paragraff 8.2 lle nodi’r bydd cais yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd gollfarn o'r 3 blynedd diwethaf am drosedd o anonestrwydd (sydd yn cynnwys dwyn). Er bod collfarn 1995 yn cynnwys troseddau o anonestrwydd ystyriwyd bod hyn wedi digwydd dros 3 blynedd yn ôl ac felly roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd y troseddau hyn yn sail i wrthod.

Amlygwyd bod gweddill y datganiad DBS yn ymwneud â throseddau o natur dreisgar. Fodd bynnag, dim ond un o'r collfarnau hynny a ddigwyddodd yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, (9 mlynedd 9 mis yn ôl o ddyddiad gwrandawiad yr Is-bwyllgor). O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, o ystyried paragraffau 6.5 a 6.6 na ddylai unrhyw un o'r euogfarnau hyn fod yn sail i wrthod y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd gyda manylion am ei hawl i gyflwyno apêl.

## 6. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd pawb i’r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda’r nôd o ddiogelu’r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i’r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â’r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau. Amlygodd bod y troseddau yn rhai hanesyddol ac wedi digwydd yn ystod ei arddegau. Roedd yn cyfaddef iddo wneud pethau gwirion. Bellach roedd yn gwneud gwaith gwirfoddol yn y gymuned ac amlygodd ei gymydog nad oedd y troseddau yn adlewyrchiad o’i gymeriad erbyn hyn.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer**

**trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd**

Wrth wneud eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gymydog yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Leek (Mai 1988) am gyhuddiad o ladrad cerbyd a thri o fân droseddau traffig. O ganlyniad cafodd ddirwy o £260.00, gorchymyn i dalu costau o £30.00, a'i ddiarddel rhag gyrru am 6 mis. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Leek (Tachwedd 1988) am gyhuddiad o gymryd cerbyd heb awdurdod, tra wedi ei ddiarddel, gyrru heb yswiriant a gyrru cerbyd dan ddylanwad alcohol. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Leek (Mawrth 1989) am ddau drosedd o ddifrod troseddol. Cafodd orchymyn prawf 2 flynedd a gorchymyn talu iawndal o £111.00. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Dwyrain Dorset am yrru cerbyd o dan ddylanwad alcohol. Cafodd ddirwy o £200.00, gorchymyn i dalu costau o £55.00 a'i ddiarddel rhag gyrru am 3 blynedd. Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Dwyrain Dorset (Chwefror 2002) am fod yn feddw ac yn afreolus. Cafodd rhyddhad amodol o 6 mis a gorchymyn i dalu costau o £55.00.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded.

Amlygwyd bod paragraff 4.5 o Bolisi'r Cyngor yn nodi bod Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu i'r Is-bwyllgor ystyried yr holl gollfarnau a gofnodwyd boed y rheiny wedi darfod o dan Ddeddf 1974 ai peidio.

Ymhellach ystyriwyd paragraff 6.6 lle nodi'r bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fwy nag un gollfarn o natur dreisgar yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Ystyriwyd paragraff 8.2 lle nodi'r bydd cais yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd gollfarn o'r 3 blynedd diwethaf am drosedd o anonestrwydd (sydd yn cynnwys dwyn). Ystyriwyd paragraff 11.2 lle nodi'r bydd cais yn annhebygol o gael ei ganiatáu os bydd gan yr ymgeisydd fwy nag un gollfarn am yrru o dan ddylanwad alcohol oni bai bod cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio ers cael y drwydded yrru yn ôl yn dilyn y gollfarn ddiwethaf.

Ystyriwyd paragraff 12.4 lle nodi'r bydd cais yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni mwy nag un drosedd traffig difrifol o fewn y 5 mlynedd hyd nes y bydd cyfnod o 3 blynedd wedi mynd heibio yn rhydd rhag collfarnau o'r fath. Amlygwyd bod troseddau o'r fath yn cynnwys gyrru heb yswiriant a gyrru tra wedi ei ddiarddel.

Ystyriwyd paragraff 12.10 lle nodi'r bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd a arweiniodd at waharddiad rhag gyrru o 12

mis neu fwy, oni bai bod cyfnod o 18 mis wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

Er bod tystiolaeth o ail droseddu, troseddau o natur dreisgar (1989 - difrod troseddol a 2002 - meddw ac afreolus), roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd yn sail i wrthod y drwydded oherwydd roeddynt yn gollfarnau hanesyddol (dros 10 mlwydd oed). Gyda thystiolaeth bellach o ail droseddu am droseddau o anonestrwydd (1988 - dwyn cerbyd heb awdurdod) ystyriodd yr Is-bwyllgor bod y rhain dros 3 oed ac felly ddim yn sail i wrthod y cais. Roedd tystiolaeth hefyd o ail droseddu troseddau moduro (1988 - mân droseddau traffig, gyrru heb yswiriant a gyrru tra wedi ei ddiarddel), fodd bynnag gyda rhain yn gollfarnau dros 5 mlynedd yn ôl, barn yr Is-bwyllgor oedd nad oeddynt yn sail i wrthod y cais. Gyda thystiolaeth o ail droseddu mewn perthynas â throseddau yfed a gyrru yn 1989 a 2001, a arweiniodd at gael ei ddiarddel rhag gyrru, ystyriwyd bod y ddwy gollfarn yn fwy na 10 mlwydd oed ac felly gyda chyfnod o 18 mis wedi mynd heibio ers i'r cyfnod olaf ddod i ben, barn yr Is-bwyllgor oedd na ddylai'r troseddau hyn fod yn sail i wrthod y cais.

Nododd yr Is-bwyllgor nad oedd yr ymgeisydd wedi cael collfarnau ers 2002 ac wedi cadw llechen lân ers 16 mlynedd. Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau ei gymydog oedd yn ei gymeradwyo am wneud gwaith gwirfoddol yn y gymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gyda manylion am ei hawl i gyflwyno apêl.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45 y.b. a daeth i ben am 11.45 y.b.

**CADEIRYDD**